BWRDD GWASANAETHAU CYHOEDDUS GWYNEDD AC YNYS MÔN

**Cyfarfod arbennig o'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus – 17/6/2020, 10-11yb.**

**Microsoft Teams**

Presennol: -

| ENW | SEFYDLIAD |
|---|---|
| Emyr Williams (EW) | Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri |
| Dilwyn Williams (DOW) | Cyngor Gwynedd |
| Anwen Morgan (AM) | Cyngor Sir Ynys Môn |
| Ffion Johnstone (FfJ) | Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr |
| Simon Dean (SD) | Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr |
| Andrew Edwards (AE) | Prifysgol Bangor |
| Sioned Rees (SR) | Llywodraeth Cymru |
| Sian Williams (SW) | Cyfoeth Naturiol Cymru |
| Bethan Russell Williams (BRW) | Mantell Gwynedd |
| Sian Purcell (SP) | Medrwn Môn |
| Shan Morris (SM) | Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru |
| Ffrancon Williams (FfW) | Adra |
| Cyng. Llinos Medi Huws (LlMH) | Cyngor Sir Ynys Môn |
| Cyng. Dyfrig Siencyn (DS) | Cyngor Gwynedd |
| Gillian Jones (GJ) | Gwasanaeth Prawf |

Yn mynychu: -

| | |
|---|---|
| Nonn Hughes (NH) | Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd ac Ynys Môn |
| Sophie Ann Hughes (SAH) | Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd ac Ynys Môn |
| Dewi Wyn Jones (DWJ) | Cyngor Gwynedd |
| Bethan Mair Evans (BME) | Cyfieithydd – Cyngor Gwynedd |

Ymddiheuriadau: -

| | |
|---|---|
| Siobhan Adams | Iechyd Cyhoeddus Cymru |
| | |
| | |

**Crynodeb o'r gweithrediadau**

<table>
<tr><th>Rhif Eitem</th><th>Nodiadau</th><th>Pwy?</th><th>Erbyn pryd?</th></tr>
<tr><td>1.</td><td>Croeso a chyflwyniad gan y Cadeirydd<br><br>Croesawyd Gillian Jones, Y Gwasanaeth Prawf ac Andrew Edwards, Prifysgol Bangor i'w cyfarfod cyntaf.<br><br>Eglurwyd mai pwrpas y cyfarfod yw rhoi ystyriaeth i faterion penodol a gyflwynwyd yn llythyr Julie James, sydd o bosib yn rhoi ffocws gwahanol i waith y Bwrdd, gyda phwyslais ar wytnwch cymunedol. Nodwyd ein bod wedi gweld gwaith da yn digwydd ar draws ein hardal a'r pwysigrwydd o ddal hwnnw a'i ddatblygu yn y cyfnod yn dilyn yr argyfwng. Cyfeiriwyd at yr angen i ailedrych ar flaenoriaethau'r ardal a'r Cynllun Llesiant. Cytunwyd mai'r ffordd ymlaen yw deall beth sydd wedi gweithio'n dda a beth sydd angen newid yn sgil ein profiadau yn ystod y cyfnod yma. Gofynnwyd i AM a DOW gyflwyno'r cyd-destun rhanbarthol.</td><td>AM/DOW</td><td></td></tr>
<tr><td>2.</td><td>Gosod y cyd-destun, a threfniadau rhanbarthol a lleol, wrth i'r cyrff cyhoeddus ddechrau adfer o bandemig Covid-19<br><br>Mae Grŵp cydgordio strategol rhanbarthol, o dan ganllawiau ymatebi'r argyfwng, wedi bod yn cydgordio'r ymateb nifer o'r sefydliadau cyhoeddus. Nodwyd fod yr argyfwng yma'n wahanol ac yn gofyn am fath gwahanol o adferiad – sef parhau i ymateb i'r argyfwng am gyfnod amhenodol wrth ceisio dod â mwy o normalrwydd i'r balans.<br><br>Nodwyd fod cyfrifoldeb wedi'i roi i'r Bwrdd Uchelgais Economaidd i arwain ar faes yr economi. Maent hefyd wedi gofyn i bartneriaid rhanbarthol iechyd a gofal cymdeithasol edrych ar faterion iechyd a gofal.<br><br>Gwnaethpwyd cais felly i'r BGCau edrych ar y maes gwytnwch cymunedol – sydd hefyd am gynnwys y materion economi ac iechyd a gofal cymdeithasol. Mynegwyd barn ei bod yn well i ni fel BGC beidio â chanolbwyntio ar faterion rhanbarthol i gychwyn, a chanolbwyntio ar edrych ar gymunedau Gwynedd a Môn a rhoddi ystyriaeth i'r materion sydd angen sylw. Rhoi cymorth i'n cymunedau ddychwelyd i rywfaint o normalrwydd wrth parhau i ddelio gyda'r argyfwng.<br><br>Mynegodd AM nad oes angen newid llawer ar y Cynllun Llesiant presennol. Yr un fydd y themâu ond bod angen rhoi mwy o bwyslais ar wella cyflymdra'r cynnydd.</td><td></td><td></td></tr>
<tr><td>3.</td><td>Trafodaeth am rôl y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus a'r rhaglen waith am y misoedd nesaf<br><br>Cyfeiriwyd at waith da sydd wedi digwydd mewn perthynas â gwytnwch cymunedol. Sefydlwyd tîm gwytnwch cymunedol yng Ngwynedd sy'n gyfuniad o swyddogion y cyngor a'r trydydd sector.</td><td></td><td></td></tr>
</table>

| | | | |
|---|---|---|---|
| | Mae gwerthusiad yn cael ei gynnal o'r gwaith a gynhaliwyd. Nodwyd fod systemau arbennig o dda wedi eu rhoi mewn lle. Bydd hefyd angen ystyried yr ardaloedd hynny a wynebodd anawsterau e.e. Tywyn a sut roeddem wedi ymateb iddynt. Nodwyd fod y cydweithio rhwng Mantell Gwynedd a Chyngor Gwynedd wedi gweithio'n dda ac mae'n bwysig i ni ddal ein gafael ar y gwersi cadarnhaol a ddysgwyd, wrth i bobl gael yr ymdeimlad o gyfrannu at eu cymunedau. Mae angen cynnal yr awydd cymunedol yma.<br><br>Adroddwyd fod cydweithio da wedi digwydd ym Môn yn ogystal, cydweithio rhwng y Cyngor, Medrwn Môn a Menter Môn. Fe weithiodd hyn yn arbennig o ran sicrhau cefnogaeth i gymunedau a busnesau. Rydym wedi dangos ein bod yn gallu ymateb yn hynod o sydyn. Adroddwyd fod dros 850 o wirfoddolwyr yn y cymunedau. Y cymunedau arweiniodd y gwaith, gyda Medrwn Môn yn eu cefnogi. Maent wedi cefnogi grwpiau wrth ddod allan o'r cyfnod clo, gyda deg grŵp wedi dangos diddordeb mewn sefydlu eu hunain yn swyddogol. Hefyd ar hyn o bryd yn cefnogi hybiau cymunedol i ailgychwyn yn rhithiol gan gydnabod fod pryder yn parhau o fewn y cymunedau. Felly yn ceisio canfod ffordd o gynnal y gweithgaredd cymunedol a gwneud y mwyaf o'r rheiny sydd wedi dangos diddordeb i wirfoddoli'n gymunedol.<br><br>Cyfeiriwyd at waith ymchwil sy'n edrych ar effaith Covid ar ein cymunedau, gan brifysgol Caergrawnt. Bydd yn cael ei gyhoeddi maes o law.<br><br>Mynegwyd pryder am y nifer o holiaduron fydd yn cael eu cylchredeg yn y dyfodol. Nodwyd y pwysigrwydd o beidio boddi grwpiau gyda hwy, a'r angen i'w cynnal ar y cyd.<br><br>Cyfeiriwyd at Gell Intel sydd wedi ei sefydlu yn y Gorllewin er mwyn rhannu gwybodaeth ar draws y sectorau. Mewn perthynas â thrawsffurfio cymunedol nodwyd ei bod yn bwysig i barhau gyda'r gwaith digidol. Mae ffyrdd gwahanol o weithio wedi digwydd yn y clystyrau ac mae'n bwysig parhau gyda'r timau rhithiol. Bwriedir cynnal y grŵp integredig cyn canol Gorffennaf, er mwyn dal y gwersi a chytuno ar gamau nesaf.<br><br>Dywedwyd fod angen cadw'r gwaith gwydnwch cymunedol yn lleol ac yn agos at y bobl. Wedi canolbwyntio ar dair elfen yng Nghyngor Sir Ynys Môn sef – bwyd, gwirfoddolwyr a llesiant (cefnogaeth mewn galar ayb).<br><br>Nodwyd fod rhaglen waith y BGC yn aneglur ar hyn o bryd a holwyd beth yn benodol fydd gwaith y BGC, a beth yw'n disgwyliad o'r cymunedau. Ail-adroddwyd fod yr ymateb gan ein cymunedau wedi bod yn wych, ond roeddent yn ymateb i rywbeth penodol iawn. Bydd angen ystyried beth fydd anghenion ein cymunedau wrth i'r argyfwng gilio. Nodwyd y bydd angen cytuno ar raglen waith y BGC yn deillio o'r cais gan y grŵp adfer rhanbarthol.<br><br>Ategwyd fod y rhaglen waith (y Cynllun Llesiant) wedi'i llunio yn seiliedig ar yr asesiad effaith. Yr un ydi'r themâu ac mae angen parhau efo'r gwaith yna. Cydnabod y bydd yna rhai agweddau yn | FfJ<br><br>NH/SAH | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | newid ond bwrw ymlaen efo gwell cyflymder ac ymroddiad i gyflawni'r hyn rydym wedi ymrwymo iddo dylai'r nod fod.<br><br>Mynegwyd y bydd hi'n anodd parhau efo'r cynllun llesiant gan y gall anghenion ein cymunedau edrych yn dra gwahanol yn dilyn y pandemig. Bydd problemau newydd yn debygol o'n hwynebu felly bydd angen bod yn effro ac yn barod i addasu pe bai angen.<br><br>Byddwn angen dealltwriaeth o'r hyn sy'n bwysig i'n cymunedau wrth i ni ddod allan o'r argyfwng. Bydd busnesau'n dioddef a chynnydd mewn diweithdra a digartrefedd. Bydd angen ystyried goblygiadau diffyg addysg dros y cyfnod a phrofiadau'r ysgol i blant. Awgrymwyd i drefnu sesiwn yn fuan i adnabod beth yw problemau ein cymunedau ac os na fedrwn ni fel BGC ymateb iddo, sut ydyn ni'n gweithredu fel cyrff unigol i sicrhau fod rhywun yn ymateb iddynt.<br><br>Mae'r Gwasanaeth Tân yn parhau i ddadansoddi'r gwersi ond y newid mwyaf i'r gwasanaeth oedd bod y criwiau tân fwy ar gael yn ystod y cyfnod clo. Yn dilyn hyn bydd nifer yn dychwelyd i'w gwaith ond bydd rhai allan o waith felly angen ystyried hyn. O ran cartrefi, nodwyd fod materion wedi bod yn wahanol iawn a phroblemau'r cartref yn wahanol. Wedi dysgu fod y gwasanaeth tân yn hyblyg iawn ac wedi gallu addasu ac ymateb. Wrthi'n edrych ar sut y gellid parhau efo'r pethau sydd wedi gweithio'n well. Mae gennym bryder am y Gaeaf – y bydd y tywydd yn waeth ac iechyd meddwl yn is. Mwy o risg yn y cartrefi pan fod pobl yn isel a ddim yn cael y gefnogaeth maen nhw angen.<br><br>Y prif bethau mae CNC wedi bod yn canolbwyntio arnynt, sy'n berthnasol i'n trafodaethau yw sut ydym ni fel Bwrdd yn cydweithio â phartneriaid eraill i sicrhau fod adferiad gwyrdd a chynaliadwy i'r economi. Mae nifer yn ein cymunedau wedi sylwi fod modd byw a gweithio mewn ffyrdd gwahanol e.e. gallu teithio llai. Angen ystyried sut fedrwn ni gydweithio i gefnogi cymunedau i weithio a byw yn fwy cynaliadwy.<br><br>Mae'r heriau o ran argyfwng newid hinsawdd ac amgylchedd yn parhau wrth gwrs – byddwn yn edrych rŵan ar y camau nesaf. Cyfleoen wedi codi yn sgil y pandemig - pobl wedi sylwi ar y newid ar yr amgylchedd yn ystod y cyfnod clo, a nifer o bobl wedi cymryd mwy o sylw o'u hamgylchedd lleol wrth wneud ymarfer corff yn agos at adref. Bydd angen i ni fel is-grŵp ystyried sut gallwn ni gefnogi pobl i ddysgu mwy am eu hardal a'u hamgylchedd lleol a pharhau gyda threfniadau a fabwysiadwyd yn ystod y cyfnod.<br><br>Yr her fwyaf yw'r her ariannol ar y cyrff cyhoeddus. Yn ystyried bod cyfle i ni gydweithio mwy er mwyn ceisio diogelu gwasanaethau. Swyddfeydd yn enghraifft – natur y swyddfeydd yn mynd i newid, efallai y bydd angen am lai ohonynt, ac efallai bod yma le i gydweithio. Oes modd edrych hefyd yn y tymor byr ar sut allwn ni gynnig defnydd o'n hadeiladau ni i rai sydd ei angen fwy e.e. iechyd neu addysg?<br><br>Cafwyd diweddariad gan Lywodraeth Cymru gan nodi newid mawr i sut maent yn defnyddio staff ac adnoddau. Adnoddau wedi eu | Is-grŵp newid hinsawdd | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | harallgyfeirio yn llwyr. Bu ymateb positif ar y cyfan gan staff ynghylch gweithio adref felly gallwn ystyried sut fyddwn ni'n gweithredu i'r dyfodol. Bydd angen meddwl hefyd am sut fydd pethau'n edrych petai ail 'don'. Cyfeiriwyd at gyfnodau 'amber' a 'gwyrdd' a'r potensial i ystyried hyn yng nghyd-destun y cynllun llesiant. Anodd iawn ystyried sut y bydd pethau'n edrych o ran yr economi.<br><br>O safbwynt amgylcheddol, pryderon gan y tîm amgylcheddol y bydd pethau'n dychwelyd i'r norm blaenorol yn sydyn iawn wrth drio adfer yr economi. Bydd y sialensiau wrth symud ymlaen yn anoddach na'r sialensiau yn ystod y 12 mis diwethaf.<br><br>Nodwyd fod gwaith da wedi digwydd yn y sector tai. Mae gan y sector gyfraniad i'w wneud mewn nifer o'r meysydd. Mae unigrwydd wedi amlygu ei hun ac mae'n bwysig peidio colli gafael ar yr effaith a'r gwaith a wnaethpwyd wrth fynd i'r afael ag unigrwydd. Mae Tai hefyd yn gallu cyfrannu at y maes iechyd a gofal drwy ddarpariaeth mewn ffordd wahanol, a hefyd gall gyfrannu at faes yr economi drwy'r maes adeiladwaith ayb. Bydd angen eglurder o ran sut mae'r BUE yn ymateb i faterion yr economi a beth sy'n cael ei gytuno yn y maes iechyd a gofal. Byddai'n fuddiol cael cadarnhad o sut rydym yn ymateb yn lleol a rhanbarthol iddynt. Cytunwyd gyda'r sylw yma.<br><br>Awgrymwyd fod gan y BGC waith sgopio i'w gynnal. Holwyd sut mae'r economi sylfaenol yn cael sylw gan y BUE. Nodwyd fod pob awdurdod lleol yn adrodd i'r BU ar y sefyllfa economaidd leol. Bydd Cylch gorchwyl y BU yn newid cryn dipyn a rhaid i ni fod yn ymwybodol o hynny. Ategwyd fod cyfathrebu dwy ffordd rhwng y BGC a'r BUE yn bwysig.<br><br>Prif waith swyddfa rhaglen y BUE ydi'r cynllun twf. Mae trafodaethau ychwanegol i'w cynnal ynghylch y gwaith sy'n cydredeg efo'r cynllun twf, e.e. gwaith datblygol yn y maes twristiaeth. Awgrymwyd fod rôl i'r ALl i wneud y gwaith ar yr economi sylfaenol yn hytrach na'r BU ar lefel rhanbarthol.<br><br>**Crynhowyd y drafodaeth fel a ganlyn:**<br><br>• Cadarnhawyd fod y Cynllun Llesiant digon agos i'w le ond bydd angen ystyried gwahanol elfennau'n unol â'r hyn yr ydym wedi eu dysgu ac yn parhau i'w ddysgu am anghenion ein cymunedau yn sgil y pandemig.<br>• Bydd angen cynnal gwaith ymchwil er mwyn dal yr hyn sy'n digwydd yn ein cymunedau.<br>• Nodwyd yr angen i edrych ar gysylltedd digidol os am gael cynnydd yn y ffyrdd hyblyg o weithio.<br>• Nodwyd pwysigrwydd cadw golwg ar beidio symud y gwaith yn bell o'n pobl a'n cymunedau wrth symud ymlaen.<br>• Angen bod yn wyliadwrus ynghylch y problemau posib yn gysylltiedig efo unigrwydd yn ein cymdeithas – yn enwedig os fydd y sefyllfa yn parhau i'r gaeaf.<br><br>**Pwyntiau gweithredu:**<br><br>• Tîm cefnogi'r BGC i gyd-gordio'r gwaith sydd angen ei wneud rhwng hyn a chyfarfod nesaf y Bwrdd ym mis Medi. | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | • Tîm cefnogi'r BGC i edrych hefyd ar drefnu sesiwn i edrych ar y materion sydd wedi eu trafod heddiw yn fanylach cyn y cyfarfod nesaf ym mis Medi.<br>• Nodwyd fod yr Adroddiad Blynyddol i'w gylchredeg gan dîm cefnogi'r BGC er sylwadau'r partneriaid.<br>• Bydd llythyr ymateb yn cael ei ddrafftio i lythyr Julie James AC, i gadarnhau ein bod yn edrych ar y materion hyn ac yn archwilio i ddarnau gwaith penodol. | Tim Cefnogi'r BGC | cgaph |